**CYNGOR**

**(*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mercher, 27 Tachwedd 2019** |
|---|---|
| **Y Dirprwy Faer** | **Cynghorwyr J.Warman** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, S.Bamsey, D.Cawsey, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, S.apDafydd, A.P.H.Davies, N.J.E.Davies, O.S.Davies, R.Davies, C.Edwards, J.Evans, S.E.Freeguard, W.F.Griffiths, S.Harris, N.T.Hunt, S.K.Hunt, H.N.James, C.J.Jones, D.Jones, H.Jones, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, D.Lewis, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, A.McGrath, J.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, R.Phillips, M.Protheroe, L.M.Purcell, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, A.J.Richards, P.D.Richards, A.J.Taylor, D.Whitelock, C.Williams, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Evans, C.Furlow-Harris, C.Griffiths, A.Jarrett, H.Jenkins, A.Manchipp, G.Nutt, N.Pearce a/ac S.Phillips |
| **Cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu:** | Bresennol |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R MAER.**

Er mawr ofid iddo, dywedodd y Dirprwy Faer wrth y cyngor bu'r cyn-gynghorwyr Glyn Rawlings, a oedd yn cynrychioli Ward Glyncorrwg, ac Alan Carter, a oedd yn cynrychioli Ward Cimla farw yn ddiweddar.

Fel arwydd o barch, safodd y cyngor am funud o dawelwch.

Yna, croesawodd y Dirprwy Faer y Cynghorydd Marcia Spooner i'w chyfarfod cyntaf gyda'r cyngor wedi iddi gael ei hethol i gynrychioli Ward Rhos.

## 2. DATGANIADAU O FUDD

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiadau o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Freeguard | Parthed y cyflwyniad gan y Prif Swyddog Tân gan ei bod yn cynrychioli'r awdurdod ar Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru. |
| Y Cynghorydd A Llewelyn | Parthed y cyflwyniad gan y Prif Swyddog Tân gan ei fod yn cynrychioli'r awdurdod ar Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru. |
| Y Cynghorydd A N Woolcock | Parthed y cyflwyniad gan y Prif Swyddog Tân gan ei fod yn cynrychioli'r awdurdod ar Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru. |

## 3. CYFLWYNIAD GAN Y PRIF SWYDDOG TÂN

Croesawodd y Dirprwy Faer y Prif Swyddog Tân, Chris Davies a'r Rheolwr Ardal, Peter Greenslade, o Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, i'w cyfarfod blynyddol â'r cyngor.

Nododd y cyngor y sefyllfa bresennol o ran Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, a nodwyd bod yr ymgynghoriad wedi cau ym mis Chwefror 2019. Mae Llywodraeth Cymru'n dadansoddi'r ymatebion a dderbyniwyd ar hyn o bryd.

Amlinellodd y Prif Swyddog Tân sefyllfa ariannol bresennol yr Awdurdod Tân, a nodwyd yn benodol na fyddai unrhyw doriadau yn y dyfodol yn arbedion effeithlonrwydd, yn hytrach byddant yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth y gwasanaeth. Amlinellodd Mr Davies opsiynau amrywiol y byddai'n cael eu hystyried yn ystod rownd y gyllideb yn 2020/21. Nodwyd manylion y cais am godiad cyflog ar gyfer 2020-2021. Mae'n bosib y bydd y rhain yn effeithio'n sylweddol ar gyllidebau. Ynghylch yr arian wrth gefn a gedwir gan yr

Awdurdod Tân ar hyn o bryd, nodwyd ei fod yn cyfateb ag 1.5% o'r gyllideb, sydd o dan y 3% a nodwyd fel arfer da gan CIPFA.

Nododd aelodau'r digwyddiadau a'r heriau gweithredol sy'n wynebu'r Awdurdod Tân. Dywedodd Mr Davies y byddai cylch gwaith yr Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn cael ei ehangu i gynnwys Iechyd a Lles a byddai swyddogion tân yna'n cysylltu â swyddogion perthnasol o'r awdurdod os bydd angen.

Nodwyd manylion yr ymatebion i Arolwg Barn y Cyhoedd, yn benodol y farn bod y gwasanaeth yn darparu gwerth am arian.

Yn dilyn y cyflwyniad uchod, cododd aelodau'r materion canlynol:-

- A oedd yr Awdurdod Iechyd wedi ad-dalu'r Awdurdod Tân am ei waith fel cyd-ymatebwyr.  Cadarnhawyd bod cytundeb adfer y gost ar waith.
- Gofynnodd yr aelodau a ddylai'r prydlesau rhad sydd eisoes yn bodoli cael eu disodli gan brydlesi cyfradd y farchnad?  Mewn ymateb, dywedodd Mr Davies fod y sefyllfaoedd yn cael eu hadolygu'n flynyddol.
- Gofynnodd aelodau faint o amser a dreuliwyd fel cyd-ymatebwyr a dywedwyd wrthynt ei fod yn cyfateb i tua 16% o alwadau coch ambiwlansiau, sy'n hydrin.
- Gofynnodd aelodau ar bad adeg y byddai Gorsaf Dân Castell-nedd dan fygythiad o gael ei israddio, a dywedwyd wrthynt fod Gorsafoedd Tân Castell-nedd a Phort Talbot wedi cael eu hasesu gyda'r bwriad i adeiladu gorsaf dân newydd ym Maglan yn lle'r ddwy orsaf dân, ond nid yw hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.
- Roedd aelodau'n hapus i glywed bod yr Awdurdod Tân wedi cynnig lleoedd at ddefnydd cymunedol.
- Diolchwyd i'r Awdurdod Tân am ei ymateb i'r llifogydd diweddar yn y Fwrdeistref Sirol.

Ar ôl derbyn diolch gan y Dirpwy Faer, gadawodd Mr Davies a Mr Greenslade y cyfarfod.

## 4. COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR (BLWYDDYN DDINESIG 2019/20)

**PENDERFYNWYD:** Cadarnhau cofnodion cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2019 fel cofnod cywir.

## 5. CYFLWYNIAD GAN SAC AR YR ADRODDIAD GWELLIANT BLYNYDDOL DRAFFT

Croesawodd y Dirprwy Faer Alison Lewis, Arweinydd Archwilio Perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru.

Roedd aelodau'n hapus i nodi o'r cyflwyniad nad yw'r awdurdod yn awdurdod risg uchel a bod ganddo hanes da gan gynnwys arloesedd e.e. y Strategaeth Digidol. Yn ogystal â hyn nodwyd bod yr Archwilydd Cyffredinol yn teimlo bod yr awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r Mesur Llywodraeth Leol.

Diolchodd y Dirprwy Faer i Alison Lewis am ei chyflwyniad.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynodd Aelod y Cabinet yr adroddiad uchod, a oedd yn edrych yn ôl ar y flwyddyn flaenorol. Nodwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr awdurdod a'i anfon at Lywodraeth Cymru er gwybodaeth yn dilyn cyfarfod heddiw.

Yn dilyn yr uchod, gofynnodd aelodau am waith y cydlynwyr ardaloedd ac a oedd digon o allu wrth ehangu eu hardaloedd. Atgoffodd y cyfarwyddwr fod hyn yn cyfeirio at y llynedd a bod a llwyth gwaith wedi cael ei reoli'n gyfartal ar draws bob rhan o'r fwrdeistref sirol. Anogwyd aelodau i gysylltu'n uniongyrchol â'u cydlynydd ardal perthnasol.

Gofynnwyd i'r cyfarwyddwr pa waith sy'n cael ei wneud i gefnogi gofalwyr a dywedodd y datblygwyd Strategaeth Gofalwyr at y diben hwn ac y byddai'n cael ei hadolygu yn y flwyddyn newydd.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

7. **CYNLLUN BLYNYDDOL CYFIAWNDER IEUENCTID AC YMYRRYD YN GYNNAR CASTELL-NEDD PORT TALBOT 2019-20**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet yr adroddiad uchod a dywedodd wrth y cyngor mai dyma oedd adroddiad blynyddol cyntaf y gwasanaeth ers iddo wahanu oddi wrth yr hen Fae'r Gorllewin. Atgoffwyd aelodau bod hwn yn ganlyniad i'r adroddiad arolygu gwrthwynebus a dderbyniwyd gan wasanaeth ar y cyd Bae'r Gorllewin. Gwnaed gwelliannau ac roedd morâl staff hefyd wedi gwella. Caiff arolygiad o'r gwasanaeth ei gynnal ar ddechrau 2020.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cynllun Blynyddol Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Castell-nedd Port Talbot 2019-20, fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad a gylchredwyd.

8. **RHEOLAU GWEITHDREFNAU CONTRACTAU**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet yr adroddiad uchod.

**PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau diweddaredig fel y'u cynhwysir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a gylchredwyd ac fel y'u mabwysiadwyd gan y Cabinet ar 30 Hydref 2019;

2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i newid y Rheolau Gweithdrefnau Contractau a gynhwysir yng Nghyfansoddiad Cyngor Castell-nedd Port Talbot ar hyn o bryd i'r fersiwn a gynhwysir yn Atodiad

9. **NEWIDIADAU I AELODAETH PWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL**

Ystyriodd y cyngor yr adroddiad uchod, yn ogystal â'r adroddiad adendwm, a gyflwynwyd yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r newidiadau canlynol i

aelodaeth pob pwyllgor/corff allanol:

- Bydd y Cynghorydd S Knoyle yn cymryd lle'r Cynghorydd D Lewis ar y Pwyllgor Craffu Adfywio a Datblygu Cynaliadwy;
- Bydd y Cynghorydd J Warman yn cymryd lle'r Cynghorydd A McGrath ar Elusendai Llewelyn Alms;
- Llenwyd y swydd wag ar y Pwyllgor Cynllunio gan y Cynghorydd M Protheroe.

## 10. DATGANIAD GAN ARWEINYDD Y CYNGOR AR FARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE

Derbyniodd y cyngor ddatganiad gan Arweinydd y Cyngor ar Fargen Ddinesig Bae Abertawe yn unol â'r ymrwymiad a roddwyd yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2019. Yn benodol, atgoffwyd y cyngor am yr achos busnes newydd - Arloesedd a Thwf Carbon Isel.

Nododd aelodau'r cynnydd a wnaed wrth gyflwyno'r prosiectau a bod llinyn ychwanegol ynghylch trafnidiaeth hefyd yn cael ei ddatblygu.

Croesawodd aelodau'r diweddaraf gan yr Arweinydd ac roeddent yn gobeithio y byddai'r prosiectau'n dechrau'n fuan.

## 11. COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL Y CABINET A BYRDDAU'R CABINET

**PENDERFYNWYD** nodi'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Cabinet | 25 Medi 2019 |
| Cabinet | 2 Hydref 2019 |
| Addysg, Sgiliau a Diwylliant (Ar) | 12 Medi 2019 |
| Addysg, Sgiliau a Diwylliant | 12 Medi 2019 |
| Strydlun a Pheirianneg | 25 Hydref 2019 |
| Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles | 5 Medi 2019 |

## 12. HYSBYSIAD O GYNNIG DAN ADRAN 10 O RAN 4 (RHEOLAU GWEITHDREFNAU) CYFANSODDIAD Y CYNGOR A GYNIGIWYD GAN Y CYNGHORYDD PADDISON AC A EILIWYD GAN Y CYNGHORYDD LLEWELYN.

Derbyniodd Aelodau'r cyngor Hysbysiad o Gynnig dan Adran 10 o Ran 4 (Rheolau Gweithdrefnau) Cyfansoddiad y Cyngor, ynghylch y defnydd o dân gwyllt. Cynigiwyd y Cynnig gan y Cynghorydd S Paddison, ei eilio gan y Cynghorydd Alun Llywelyn, a'i gymeradwyo gan Ddirprwy Arweinydd Grŵp y Democratiaid Annibynnol.

**PENDERFYNWYD:**

1. Y bydd pob arddangosfa tân gwyllt a gynhelir ar dir yr awdurdod lleol ac/neu sy'n amodol ar ganiatâd gan yr awdurdod lleol yn cael ei hysbysebu cyn dyddiad y digwyddiad i alluogi perchnogion i ofalu am eu hanifeiliaid a phobl ddiamddiffyn;

2. Bydd yr awdurdod yn hyrwyddo ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus am effaith tân gwyllt ar les anifeiliaid a phobl ddiamddiffyn - gan gynnwys y rhagofalon y gellir eu cymryd i liniaru risgiau;

3. Bydd yr awdurdod yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i'w hannog i ddefnyddio unrhyw ddylanwad sydd ganddi i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar anifeiliaid a phobl ddiamddiffyn mewn perthynas ag arddangosfeydd tân gwyllt;

4. Bydd yr awdurdod yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU i'w hannog i gyflwyno deddfwriaeth i leihau uchafswm lefelau sŵn tân gwyllt i 90dB ar gyfer y rheini sy'n cael eu gwerthu i'r cyhoedd am arddangosfeydd preifat;

5. Bydd yr awdurdod yn annog cyflenwyr tân gwyllt lleol i werthu tân gwyllt 'tawelach' ar gyfer arddangosfeydd cyhoeddus.

## 13. **EITEMAU BRYS**

Gan mai dyma oedd cyfarfod olaf y cyngor byddai Gareth Nutt yn mynd iddo fel Cyfarwyddwr yr Amgylchedd. Diolchodd Arweinydd y Cyngor iddo am ei gyfraniad, ei waith a'i ymroddiad i'r awdurdod a dymunodd ymddeoliad hir, iach a ffyniannus iddo, a chefnogwyd hyn gan y Prif Weithredwr ac aelodau'r cyngor.

**CHAIRPERSON**